

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Tŷ Llewelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 3, 4 a 5 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 5 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-762-0

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Nhŷ Llewelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 3, 4 a 5 Gorffennaf 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Gwion - Uned Gofal Seiciatrig Dwys Diogelwch Canolig â phum gwely
- Pwyl - Ward Aciwt Diogelwch Canolig â deg gwely
- Branwen - Ward Adsefydlu Diogelwch Canolig â deg gwely.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 3 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd naw gan aelodau o'r staff. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn dangos parch wrth rhyngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Dywedodd y cleifion wrthym fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â pharatoi bwyd a dewisiadau bwydlen.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen ailaddurno ystafelloedd gwely
- Gwelliannau i ddewisiadau bwydlen
- Mynediad gwell i ddyfeisiau electronig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Rhaglen weithgareddau dda ar gyfer y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

O'r hyn a welwyd, roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

Roedd ymatebion diogel a therapiwtig ar waith i reoli ymddygiad heriol ac i hybu diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd protocolau addas ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a phrosesau rheoli heintiau. Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella awyru mewn ystafelloedd ymolchi ac ardaloedd campfa
- Ailaddurno'r wardiau a'r ardaloedd cymunedol
- Tasgau gweithgarwch archwilio wedi'u teilwra ar gyfer y lleoliad iechyd meddwl

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Arsylwyd ar dîm o staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar, proffesiynol a charedig a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Roedd staff, rheolwyr y ward a'r uwch dîm arwain yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig. Fodd bynnag, er nad yn ganfyddiad yn ystod yr arolygiad ar y safle, derbyniodd ein harolwg staff rai ymatebion negyddol. Roedd y rhain yn ymwneud â staff nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu hannog na'u cefnogi i godi pryderon, diffyg hyder bod y sefydliad yn gweithredu mewn ymateb i bryderon, a diwylliant. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd adolygu'r adborth hwn gan ganolbwyntio'n benodol ar y berthynas rhwng staff y ward ac uwch reolwyr.

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran cyfarfodydd i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diweddarau polisïau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Recriwtio staff i swyddi gwag
- Adolygu a diweddarau polisïau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tîm llawn cymhelliant sy'n canolbwyntio ar y cleifion
- Roedd y tîm o staff yn gydlynol ac yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad roeddent yn eu cael gan y rheolwyr
- Roedd rheolwr y ward a'r uwch dîm arwain yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r staff
- Darpariaethau llesiant i'r staff

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Dosbarthwyd holiaduron AGIC gennym yn ystod yr arolygiad er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom dri ymateb i'r holiaduron; mae angen cadw'r nifer bach hwn mewn cof wrth ystyried yr ymatebion hyn.

Gwnaethom hefyd adolygu'r adborth mewnol gan gleifion, cwynion a chofnodlyfrau arolygon i'n helpu i lunio barn ar brofiad cyffredinol cleifion.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Ni chaiff prydau eu coginio'n ffres ar y safle mwyach".

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Gallai'r dewisiadau bwydlen fod yn fwy amrywiol i ni gleifion hirdymor".

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd gan Dŷ Llewelyn amrywiaeth o gyfleusterau i helpu i ddarparu therapïau a gweithgareddau a gallai'r cleifion a oedd wedi cael awdurdod i adael yr ysbyty fynd allan i'r gymuned yn rheolaidd.

Roedd meddyg teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion, fel y bo angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol.

Gwelsom fod y cleifion a'r staff yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Roedd gan y staff therapi galwedigaethol raglen o weithgareddau amrywiol ardderchog ar waith, ac roedd hi'n amlwg bod yr adran therapi galwedigaethol yn cynnig rhai gweithgareddau therapiwtig llesol i'r grŵp cleifion. Er bod y rhaglen weithgareddau'n dda, dywedwyd wrthym y ceir oedi yn aml ym mhroses gymeradwyo cyfarpar therapi galwedigaethol y bwrdd iechyd, a all effeithio ar y therapïau sydd ar gael i'r cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd iechyd yn delio â cheisiadau am gyfarpar mewn ffordd fwy amserol.

Yn ogystal, roedd cegin therapi galwedigaethol y gallai'r cleifion ei defnyddio er mwyn paratoi prydau bwyd; fodd bynnag, nid oedd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac roedd angen ei diweddaru.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gegin therapi galwedigaethol yn cael ei defnyddio'n fwy effeithiol ac yn cael ei diweddaru.

Roedd gan yr ysbyty gampfa a neuadd chwaraeon a oedd yn darparu cyfarpar ffitrwydd addas i'r cleifion gadw'n heini. Gwnaethom nodi bod rhai cwynion wedi'u gwneud gan gleifion mewn perthynas â thymheredd ac awyru yn yr ardaloedd hyn.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu awyru a thymhereddau yn yr ardaloedd hyn i wella ansawdd profiad y claf.

Gallai'r cleifion hefyd fanteisio ar dir helaeth yr ysbyty hefyd. Roedd y tir o amgylch yr adeilad yn cael ei gynnal yn dda a gwelwyd cleifion yn defnyddio'r ardal hon drwy gydol yr arolygiad.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwnaethom nodi bod yr holl gyflogeion, staff wardiau, uwch-reolwyr, a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgarg tuag at y cleifion.

Nodwyd bod mynedfeydd y ward wedi'u cloi a bod system intercom ar y ward yn atal unrhyw fynediad heb awdurdod.

Dim ond un ystafell wely ar bob ward a oedd yn darparu cyfleusterau en-suite. Roedd angen ailaddurno'r ystafelloedd gwely, roedd drysau'r cypyrddau dillad wedi'u tynnu allan ac roedd hyn yn gwneud i'r ystafelloedd gwely edrych yn flêr ac yn anurddasol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wella golwg ystafelloedd gwely'r cleifion.

Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd ond gallai'r staff eu hagor o hyd pe bai angen. Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion wrthym pan fydd angen atgyweiriadau yn eu hystafelloedd gwely neu ystafelloedd ymolchi, nad ydynt yn cael gwybod ac weithiau maent yn cael sioc o weld staff cynnal a chadw yn eu hystafelloedd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau eu bod yn diweddarau'r cleifion pan fydd gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud yn ardaloedd yr ystafelloedd gwely ac ymolchi.

Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn perthynas â phob eitem personol er mwyn sicrhau diogelwch pob claf.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn rhannu un iPad rhwng tair ward ac nad oedd hyn yn ddigon.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r mater hwn a sicrhau bod rhagor o ddyfeisiau iPad ar gael i'r grŵp cleifion, ar ôl i asesiadau risg perthnasol gael eu cwblhau.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos ar y ward i'r cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom fod posterï yn arddangos gwybodaeth am wasanaethau eirioli a sut y gallai'r cleifion roi adborth ar y gofal roeddent yn ei gael ar y wardiau.

Caiff cyfarfodydd fforwm cleifion misol eu cadeirio gan reolwr neu uwch aelod o staff ac mae cynrychiolwyr Caniad yn bresennol. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn a chatau gweithredu'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd gan y cleifion.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

O safbwynt cynllunio gofal ac arferion yn yr ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny).

Roedd y cleifion yn cymryd rhan lawn mewn adolygiadau amlddisgyblaethol misol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Dangosodd ein canfyddiadau dystiolaeth glir o gyfranogiad amlddisgyblaethol yng nghynlluniau gofal y cleifion a oedd yn helpu'r ysbyty i roi gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym y caiff apwyntiadau amryfal eu trefnu iddynt eu mynychu, ac yn aml, ceir gwrthdaro sy'n golygu eu bod yn colli rhai apwyntiadau.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gwaith cydlynu apwyntiadau cleifion ei reoli'n fwy effeithiol.

Amserol

Gofal Amserol

At ei gilydd, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal amserol yn ystod eu hamser ar y ward. Roedd anghenion y cleifion yn cael eu hasesu'n brydlon wrth eu derbyn a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd amserol pan ofynnwyd iddynt.

Roedd y ward yn cynnal cyfarfodydd sgrym diogelwch dyddiol a oedd yn cadarnhau'r lefelau defnydd gwelyau, lefelau arsylwi a staffio ac unrhyw faterion cleifion a oedd yn dod i'r amlwg yn ddigonol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd gadarnhaol.

Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd sensitif ac yn cymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, gan ddefnyddio iaith briodol. Roedd hi'n amlwg bod y staff a'r cleifion yn parchu ei gilydd a bod diogelwch perthynol cryf rhyngddynt.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael help gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, caiff eu teuluoedd a'u gofawyr eu cynnwys mewn cyfarfodydd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion ar gyfer y cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a gweld bod y ddogfennaeth a oedd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth ar waith yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hybu a'u diogelu fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob un o'r cleifion, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd mynediad i'r wardiau yn ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Gallai'r staff gael mynediad i'r ward drwy ddefnyddio cardiau llithro, ac roedd ymwelwyr yn canu'r gloch wrth fynedfa'r ward.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am help pe bai angen. Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen. Nodwyd nad oedd rhai botymau galw yn ystafelloedd gwely'r cleifion o fewn cyrraedd y cleifion o'u gwely.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn gallu cyrraedd y clychau galw yn eu hystafelloedd gwely yn hawdd

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys llyfrau gwaith asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau a gynhelir gan reolwr y ward ar bob ward.

Edrychodd aelodau'r tîm arolygu ar amgylchedd yr ysbyty wrth iddynt gael eu tywys o amgylch yr ysbyty ar noson gyntaf yr arolygiad ac yn ystod diwrnodau eraill yr arolygiad. Roedd y ward yn edrych yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi sawl mater o ran addurno a'r amgylchedd yr oedd angen talu sylw iddynt:

- Llwydni ac awyru gwael mewn ystafelloedd cawod a thoiledau ar y tair ward. Codwyd hyn hefyd yng nghwynion y cleifion
- Llenni preifatrwydd ar Ward Pwyll heb ddyddiad gwaredu a dim llenni preifatrwydd yn y gawod ar Ward Branwen
- Mae angen newid cyfarpar ystafelloedd ymolchi'r ward lle mae risgiau posibl o glymu ac mae angen eu gwneud yn ddiogel i'r grŵp cleifion
- Ailaddurno ystafelloedd gwely, mae'r cypyrddau gwag yn gwneud i'r ystafelloedd gwely edrych yn flêr ac yn anurddasol
- Mae angen cael gwared ar hen socedi ffôn mewn ystafelloedd gwely
- Byddai'n fuddiol paentio ac ailaddurno'r wardiau a'r ardaloedd cymunedol
- Adolygu'r broses awyru, tymheredd a'r llif aer yn y gampfa a'r ystafell wahanu
- Mae angen gwella'r gegin therapi galwedigaethol.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y materion amgylcheddol uchod.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau rheoli heintiau er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr amgylchedd yn lân a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty.

Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol. Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y bwrdd iechyd wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o rwymedigaethau rheoli heintiau.

Gwelsom hefyd fod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael i'r staff a'u bod yn ei ddefnyddio lle y bo'n briodol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod PPE ar gael yn rhwydd bob amser. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo digonol ar gael.

Roedd tystiolaeth o amserlenni glanhau'r nyrsys, fodd bynnag, nid oedd amserlen gweithgareddau glanhau ar waith ar gyfer staff domestig.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod amserlenni gweithgareddau glanhau ar waith ar gyfer staff domestig.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd staff y wardiau yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy'r fewnwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Rheoli meddyginiaethau

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod yr oergelloedd meddyginiaeth wedi'u gadael heb eu cloi. Codwyd hyn gyda'r staff, a unionodd y sefyllfa yn syth, ac roedd pob oergell wedi'i chloi yn ystod gweddill yr arolygiad.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell feddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau

yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr. Fodd bynnag, roedd rhai bylchau lle nad oedd gwiriadau tymheredd wedi'u cofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n gyson.

Ar y cyfan, roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Roedd siartiau'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gyffredinol dda ar y wardiau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr adran ar statws cyfreithiol y claf ar y siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael ei chwblhau'n gyson. Heb y wybodaeth hon, mae'n anodd i'r rhai sy'n rhoi meddyginiaeth i wneud hynny yng nghyd-destun y fframwaith cyfreithiol cywir. Yn ogystal, roedd llofnodion ar goll ar nifer fach ohonynt.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n llawn.

Dim ond mewnbwn cyfyngedig a gafwyd gan y fferyllfa a dim ond archwiliadau cyfyngedig a oedd yn cael eu cynnal i hwyluso'r broses o reoli, rhagnodi a storio meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Byddai cymorth a mewnbwn amlach gan y fferyllfa o fudd i'r ysbyty.

Roedd y staff yn wybodus ac yn hyderus wrth roi meddyginiaeth. Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth, a gwelsom fod y staff yn rhoi meddyginiaeth mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Gwelsom dystiolaeth o waith archwilio rheolaidd o'r cyfarpar dadebru. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y bag argyfwng wedi cael ei gau ar ôl cynnal y gwiriadau.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bag argyfwng yn cael ei gau ar ôl i'r gwiriadau perthnasol gael eu cynnal.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Ymddygiad heriol

Disgrifiwyd strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Dywedwyd wrthym fod technegau ataliol yn cael eu defnyddio a lle bo angen, byddai'r staff yn arsylwi ar y cleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn achosi pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod dulliau atal cleifion yn gorfforol diogel yn cael eu defnyddio. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu a'i drafod mewn cyfarfodydd llywodraethu.

Gwnaethom adolygu data atal yn gorfforol a nodwyd nad oedd rhai ffurflenni wedi'u cwblhau'n llawn ac roedd bylchau ar ddata sefyllfa a rhai amseroedd ar goll.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ffurflenni atal yn gorfforol eu cwblhau'n llawn.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar system rhoi gwybod am ddigwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX).

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio a'u goruchwyllo.

Cofnodion y Cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn gyfuniad o gofnodion electronig a phapur. Roedd y cofnodion electronig wedi'u diogelu â chyfrinair ac roedd dogfennaeth bapur wedi'i storio'n ddiogel mewn swyddfeydd dan glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a thor-cyfrinachedd. Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Gwnaethom ddefnyddio'r system cofnodion electronig drwy gydol yr arolygiad a nodwyd gennym fod cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr ac yn drefnus.

Maeth a hydradu

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent yn fodlon ar y dewisiadau bwydlen a oedd ar gael yn Nhŷ Llewelyn. Dywedodd rhai cleifion wrthym fod meintiau'r dognau'n fach, nad oedd y bwyd yn boeth yn aml a bod diffyg amrywiaeth yn y fwydlen.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu adborth y cleifion a gwella'r dewisiadau bwydlen a'r ffordd y caiff bwyd ei baratoi yn Nhŷ Llewelyn i sicrhau bod y dewisiadau ar y fwydlen yn bodloni gofynion maethol y cleifion.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pum claf y canfuwyd fod pob un ohonynt yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Chod Ymarfer Cymru, 1983 (diwygiwyd 2016)

Cafodd cofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl eu storio'n briodol, eu trefnu'n dda a'u cynnal a chadw ac roeddent yn hawdd iawn eu llywio.

Roedd gweinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhedeg system effeithlon ac effeithiol i gefnogi'r gwaith o fonitro ac adolygu gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio gofal a darpariaeth

Gwnaethom fwrw golwg dros bum cynllun gofal ar bob un o'r wardiau.

Roedd y cofnodion wedi'u trefnu'n dda, yn hygyrch ac roedd yn hawdd cael gafael arnynt drwy'r system cofnodion iechyd electronig os oeddech yn gyfarwydd â'r system.

Ar y cyfan, roedd y cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac wedi'u hysgrifennu'n dda gyda nodau clir. Fodd bynnag, roedd gan ddau gynllun gofal cleifion ar Ward Gwion wybodaeth anghywir am y gofal a'r driniaeth gyfredol ar gyfer y cleifion. Yn ogystal, nid oedd lefelau arsylwi wedi'u diweddarau yn y cynllun gofal ers y cyfarfod adolygu gofal a thriniaeth diwethaf. Yn ogystal, nid oeddem yn sicr a oedd yr archwiliadau cadw cofnodion cyfredol a oedd yn archwiliadau bwrdd iechyd cyffredinol yn briodol ar gyfer y lleoliad iechyd meddwl.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried meysydd archwiliadau cadw cofnodion ar eu system archwilio a'u hadolygu i gadarnhau pa mor berthnasol yw'r archwiliadau o ran rhoi sicrwydd ynghylch y safonau cadw cofnodion a'r disgwyliadau mewn lleoliadau iechyd meddwl.

Roedd asesiadau o anghenion ac asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu cwblhau wrth dderbyn y claf, a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun gofal a'r strategaethau rheoli risg a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar y ward. Roedd tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn adlewyrchu parthau'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'u proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu.

Mae gwaith monitro iechyd corfforol yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion a chânt eu hymgorffori drwy ffeiliau'r cleifion. Cafodd amrywiaeth eang o asesiadau iechyd corfforol seiliedig ar dystiolaeth ei chwblhau. Roedd hi hefyd yn gadarnhaol gweld tystiolaeth o feddygon teulu lleol yn mynd i'r ysbyty ac yn cyfrannu at anghenion iechyd y cleifion.

Gwnaethom adolygu cofnodion gwahanu a nodwyd bod y bwrdd iechyd yn cydymffurfio â mynychder a lefel yr ymglymiad proffesiynol a bennwyd yn y cod ymarfer a pholisi gwahanu'r bwrdd iechyd. Ar adeg yr arolygiad, roedd claf wedi'i wahanu yn rhan o ddigwyddiad clinigol, a chafodd y sefyllfa anarferol a chymhleth hon ei rheoli'n effeithiol gan staff ac uwch dîm rheoli'r ward.

Aeth y tîm arolygu i gyfarfodydd yn ymwneud â'r digwyddiad o wahanu lle cafodd gwersi eu dysgu a gwybodaeth ei rhannu a gwnaed penderfyniadau clinigol mewn ffordd brydlon ac amserol. Roedd hi'n gadarnhaol nodi yn y cyfarfodydd hyn fod opsiynau llai caeth yn cael eu trafod gyda'r tîm amlldisgyblaethol, sy'n cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gwahanu hirdymor.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o naw ymateb gan y staff yn y lleoliad. Roedd ymatebion y staff pan ofynnwyd iddynt ydy'r sefydliad yn annog ei staff i fynegi pryderon pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le gyda chlaf yn gymysg. Roedd 22 y cant yn cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn tra roedd 22 y cant o'r staff yn anghytuno.

Roedd 33 y cant o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn anghytuno'n gryf fod y sefydliad yn gefnogol a'i fod yn cefnogi staff i nodi problemau a'u datrys. Roedd dros 44 y cant yn anghytuno'n gryf â'r gosodiad bod y sefydliad yn cymryd camau cyflym i wella lle bo angen.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae prinder staff rheolaidd yn effeithio ar ofal y cleifion ac yn cynyddu'r straen ymhlith cyflogeion rheolaidd”

“Ar adegau, nid oes digon o aelodau profiadol na pharhaol o staff i sicrhau gofal cyson neu ddiogel i gleifion”.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shift nos.

Yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, roeddent yn gwbl ymwybodol o'r systemau ar alw sydd ar waith yn yr ysbyty.

Roedd prosesau gweithredu'r ysbyty yn cael eu hategu gan drefniadau llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd.

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Drwy'r arolygiad, gwnaeth yr holl staff sicrhau eu bod ar gael i siarad â thîm arolygu AGIC a gwnaethant gymryd rhan mewn modd cadarnhaol iawn yn y broses.

Yn ystod ein cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad, gwnaeth uwch aelodau staff y wardiau a'r rheolwyr ysbytai dderbyn ein sylwadau. Gwnaethant ddangos ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad.

Y gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Siaradodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn frwdfrydig am eu rolau. Gwnaethom sylwi ar waith tîm cryf ac ymdeimlad bod yr holl staff yn cyd-dynnu drwy gydol yr arolygiad.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r dogfennau y gofynnodd y tîm arolygu amdanynt mewn ffordd brydlon ac amserol, sy'n dangos bod systemau llywodraethu da ar waith yn yr ysbyty.

Darparwyd amrywiaeth o bolisiâu i ni, y cafodd y mwyafrif ohonynt eu diweddarau, ond canfuwyd bod y polisiâu canlynol wedi dyddio:

- Iechyd a diogelwch y gweithle - dyddiad adolygu Gorffennaf 2021
- Arferion Recriwtio a Dethol - dyddiad adolygu Mehefin 2019
- Polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol - dyddiad adolygu Mehefin 2023
- Protocol tawelyddu cyflym - dyddiad adolygu mis Mawrth 2022.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisiâu eu hadolygu a'u diweddarau.

Gwelsom fod nifer o swyddi gwag yn yr ysbyty yr oedd y bwrdd iechyd yn ceisio eu llenwi. Cyflenwyd y bylchau mewn staff gan staff banc neu asiantaeth a oedd yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion fel rheol. Trafodwyd materion staffio yn y sgrym diogelwch dyddiol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff swyddi gwag eu llenwi ac y caiff mentrau eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i weithio yn yr ysbyty.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod dau therapydd nyrsio wedi'u penodi'n ddiweddar a oedd yn gweithio ochr yn ochr â seicoleg, gan helpu i hyrwyddo ymarfer wedi'i hysbysu gan seicoleg yn Nhŷ Llewelyn.

Roedd pecyn cynefino staff a lleoli myfyrwyr cynhwysfawr wrthi'n cael ei gwblhau er mwyn helpu a chefnogi staff a myfyrwyr yr oedd disgwyl iddynt ddechrau eu swyddi yn Nhŷ Llewelyn.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Ystyriodd y tîm arolygu lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff, a chafodd restr o gydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol. Roedd y ffigurau hyfforddiant a ddarparwyd i ni ar yr arolygiad yn nodi bod y ffigurau cydymffurfiaeth yn 88.8 y cant ar y cyfan.

Gwelsom fod gwybodaeth wedi cael ei darparu i'r staff am ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd newydd ac roedd ffurflenni mewnol wedi'u diwygio i nodi'r data hyn. Hefyd, dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'u pryderon. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

Roedd gan y staff hefyd fynediad i ganolfan adnoddau llesiant ar safle'r ysbyty. Roedd hwn yn ofod diogel a chefnogol y gallai'r staff fynd iddo. Siaradodd y staff mewn modd cadarnhaol am yr adnodd hwn yn ystod yr arolygiad, ond roedd sylwadau'r staff yn yr arolwg yn cynnwys,

“Nid yw cael “gwasanaethau llesiant” bondigrybwyll yn disodli pwysigrwydd sicrhau amgylchedd gwaith iach a diogel nac yn atal staff rhag cael eu gorweithio.”

Dywedodd y staff fod yr uwch dîm arwain yn hygyrch ac yn hawdd mynd atynt bob amser, ac mae'n ymddangos bod diwylliant arweinyddiaeth cryf a chefnogol yn yr ysbyty. Cadarnhawyd hyn gan y staff a ddywedodd fod y tîm arwain yn gefnogol, yn weladwy ac yn hygyrch bob amser.

Er nad oedd yn un o ganfyddiadau'r arolygiad, nododd yr arolwg staff y gellid gwella'r cydberthnasau rhwng staff y ward a'r uwch reolwyr. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

“Mae angen i uwch-reolwyr roi stop ar y micro-reoli a'r bwllo proffesiynol cyson sy'n digwydd drwy'r gwasanaeth”.

“Mae'n ymddangos bod y rheolwyr yn poeni mwy am y risgiau i'r sefydliad na gofal cleifion”.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth hwn a nodi sut y gall feithrin cydberthnasau rhwng staff y ward a'r uwch-reolwyr.

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran cyfarfodydd i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion.

Roedd y sgrym diogelwch dyddiol wedi'i strwythuro'n dda ac roedd yn cwmpasu'r prif feysydd yn ymwneud â diogelwch cleifion, digwyddiadau, diogelu a chynllunio adnoddau.

Roedd gwelliannau wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf yn 2020, gyda systemau wedi'u diffinio'n dda a phrosesau ar waith o safbwynt llywodraethu ac o safbwynt gweithredol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn y wardiau.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi ei hun i'r cyfrifiaduron er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth. Roedd yr ystadegau hyfforddiant yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth ymhlith y staff, sef 86 y cant.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn galonogol gweld nifer y prosiectau ymchwil a'r gwelliannau ansawdd sydd ar waith yn y bwrdd iechyd ar hyn o bryd. Roedd llawer o enghreifftiau o gydweithio â byrddau iechyd lleol eraill ar brosiectau gwella fel y Rhaglen Trawsnewid Fforensig.

Gwelsom fwletin newyddion misol ac roedd y materion pwnc yn cynnwys diolch i'r staff a'r newyddion diweddaraf. Roedd holiaduron staff wedi'u cwblhau hefyd a chwblhawyd adroddiad 'dywedoch chi, gwnaethom ni' i'r staff. Roedd hi hefyd yn gadarnhaol gweld bod yr uwch dîm arwain yn cymryd camau o'r canlyniadau arolwg staff ac adrodd yn ôl i'r staff ar y camau a gymerwyd.

Yn ogystal, rhoddodd y tîm arwain gyflwyniad yn Rhwydwaith Cenedlaethol NICE ar gyfer Cymru ar sut i gefnogi llesiant staff. Yn ogystal, roedd tudalen mewnwyd newydd yn cael ei datblygu i'r staff gael gafael ar fwletinau newyddion, fforwm rhyngweithiol i'r staff a sesiynau holi ac ateb misol gyda'r uwch dîm arwain. Byddai straeon newyddion da a dathlu gwaith da'n cael eu cynnwys hefyd, ochr yn ochr â hyperddolenni i fentrau llesiant staff.

Roedd Tŷ Llewelyn hefyd yn anelu at gyflawni'r safon arian i aur ar gyfer timau dan arweiniad ward o dan y Fframwaith Achredu Wardiau ac roedd cynllun gweithredu ar waith ar sut roeddent yn anelu at gyflawni hyn.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y staff yn gallu disgrifio sut mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â phartneriaid i ddarparu gofal cleifion a chyflwyno datblygiadau. Dywedwyd wrthym eu bod yn ymgysylltu ag asiantaethau partner allanol, gan gynnwys awdurdodau lleol, meddygon teulu, tai, gwasanaethau iechyd cymunedol a Caniad er mwyn sicrhau dull systemau cyfan o ddarparu gofal cleifion.

Dywedwyd wrthym fod yr uwch-staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd ag asiantaethau a chyfarfodydd misol ag arweinwyr iechyd meddwl i drafod materion a meithrin cydberthnasau gwaith cadarn. Gwnaethom fynychu nifer o gyfarfodydd yn ystod yr arolygiad lle roedd arweinydd diogelu'r bwrdd iechyd ar gael bob amser i roi cyngor a chymorth.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd yr oergell meddyginiaeth wedi'i gadael heb ei chloi.	Roedd hyn yn peri risg y byddai unigolion heb awdurdod yn gallu cael gafael ar feddyginiaeth.	Gwnaethom godi hyn gyda'r staff.	Unionwyd hyn yn syth a chafodd pob oergell ei chloi.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tŷ Llewelyn - Ysbyty Bryn y Neuadd

Dyddiad yr arolygiad: 3 - 5 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Llewelyn - Ysbyty Bryn y Neuadd

Dyddiad yr arolygiad: 3 - 5 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Oedi wrth gaffael cyfarpar therapi galwedigaethol i gleifion.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd iechyd yn delio â cheisiadau am gyfarpar mewn ffordd fwy amserol.	Bydd y broses archebu ar gyfer cyfarpar Therapi Galwedigaethol, yn unol â gweithdrefnau Caffael Oracle, yn cael ei hadolygu er mwyn nodi unrhyw achosion am oedi a bydd cynllun gwella ar gael i'r Prif Dîm Rheoli Gweithredol i sicrhau y caiff cyfarpar amserol a phriodol eu darparu fel y bo'n ofynnol.	Arweinydd Strategol/Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau wedi'u Comisiynu Arbennig	30.09.2023
Cwynion cleifion mewn perthynas ag awyru a	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu awyru a thymereddau yn yr	Bydd cais gan yr adran ystadau'n cael ei gyflwyno i	Cynllun Strategol a Gweithredol	30.09.2023

thymheredd yn y neuadd chwaraeon a'r gampfa.	ardaloedd hyn i wella ansawdd profiad y claf.	adolygu'r opsiwn o osod ffenestr yng nghyntedd y gampfa. Bydd uned aerdymheru gludadwy'n cael ei phrynu fel mesur dros dro. Bydd cyfraddau awyru a thymheredd pob ardal yn Nhŷ Llewelyn yn cael eu monitro a'u hadolygu ar y cyd â'r Adran Ystadau a bydd y canlyniad yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Ansawdd a Chyflawniad Gweithredol.		
Cleifion ddim yn cael gwybod bod atgyweiriadau'n digwydd yn yr ysbyty.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau eu bod yn diweddarau'r cleifion pan fydd gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud yn ardaloedd yr ystafelloedd gwely ac ymolchi.	Bydd rheolwr y ward yn rhoi pythefnos o rybudd o leiaf ar amserlenni gwaith oni fod y gwaith yn fater o frys. Bydd y ward hefyd yn edrych i ddarparu gwybodaeth i gleifion mewn perthynas ag unrhyw waith ystadau arfaethedig yn ystod y cyfarfodydd boreol. Bydd cofnod o drafodaethau trwy	Rheolwyr y Tîm	30.08.2023

		gyfarfodydd boreol â chleifion yn cael eu darparu fel tystiolaeth.		
Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn rhannu un iPad rhwng tair ward ac nad oedd hyn yn ddigon.	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r mater hwn a sicrhau bod mwy o ddyfeisiau iPad ar gael i'r grŵp cleifion.	Bydd yr Uwch Dîm Rheoli'n ymgymryd ag adolygiad o'r gofynion TG ar gyfer pob ward. Bydd y canlyniad yn cael ei gyflwyno mewn cynllun gwella i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Uwch Dîm Rheoli.	Cynllun Strategol a Gweithredol	30.11.2023
Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym y caiff apwyntiadau amryfal eu trefnu iddynt eu mynychu, ac yn aml, ceir gwrthdaro sy'n golygu eu bod yn colli rhai apwyntiadau.	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gwaith cydlynu apwyntiadau cleifion ei reoli'n fwy effeithiol.	Bydd pob amserlen yn cael ei datblygu a'i rhannu â chleifion a'r tîm amlddisgyblaethol. Bydd system dyddiadur electronig yn cael ei gosod i sicrhau y gall pob aelod o'r staff fynd ato i atal apwyntiadau'n croesi ei gilydd.	Rheolwr Clinigol y Safle	30.08.2023

Nid oedd rhai botymau galw yn ystafelloedd gwely'r cleifion o fewn cyrraedd y cleifion o'u gwely.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn gallu cyrraedd y clychau galw yn eu hystafelloedd gwely yn hawdd.	Bydd cais am waith mân yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod rhaglen waith yn cael ei chynnal i symud clychau galw i safle priodol, gan sicrhau bod y rhain o fewn cyrraedd y cleifion o'u gwely.	Arweinwyr Strategol a Gweithredol	30.09.2023
Gwnaethom nodi sawl mater addurnol ac amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt: • Llwydni ac awyru gwael mewn ystafelloedd cawod a thoiledau ar y tair ward. Codwyd hyn hefyd yng nghwynion y cleifion • Llenni preifatrwydd ar Ward Pwyll heb ddyddiad gwaredu a dim llenni preifatrwydd yn y gawod ar Ward Branwen • Mae angen newid cyfarpar ystafelloedd ymolchi'r ward lle mae risgiau posibl o glymu ac	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y materion amgylcheddol a'u datrys.	Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu ar y cyd â'r adran ystadau er mwyn gweithio trwy bob eitem a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Bydd y canlyniad o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei rannu a'i fonitro gyda'r Uwch Dîm Arwain. Bydd pob eitem yn cael ei chroesgyfeirio gyda Chofnodlyfr Ystadau Tŷ Llewelyn gydag amcanion ac amserlenni clir i'w cwblhau a'u trafod yn y cyfarfod misol nesaf.	Cynllun Strategol a Gweithredol	31.12.2023

mae angen eu gwneud yn ddiogel i'r grŵp cleifion • Ailaddurno ystafelloedd gwely, mae'r cypyrddau gwag yn gwneud i'r ystafelloedd gwely edrych yn flêr ac yn anurddasol • Mae angen cael gwared ar hen socedi ffôn mewn ystafelloedd gwely • Byddai'n fuddiol paentio ac ailaddurno'r wardiau a'r ardaloedd cymunedol • Adolygu'r broses awyru, tymheredd a'r llif aer yn y gampfa a'r ystafell wahanu • Mae angen gwella'r gegin therapi galwedigaethol.				
--	--	--	--	--

Nid oedd amserlen gweithgareddau glanhau ar waith ar gyfer staff domestig.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod amserlenni gweithgareddau glanhau ar waith ar gyfer staff domestig.	Bydd yr uwch dîm rheoli'n cadw mewn cysylltiad â chydweithwyr domestig i gael amserlen lanhau a fydd yn cael ei rhannu â phob ward i sicrhau cyfathrebu clir.	Rheolwr Clinigol y Safle	30.08.2023
Roedd rhai bylchau lle nad oedd gwiriadau tymheredd o'r oergelloedd meddyginiaeth wedi'u cofnodi.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n gyson.	Bydd Rheolwyr y Ward yn cael y dasg o oruchwyllo cydymffurfiaeth â gwiriadau o dymereddau'r oergell. Bydd memorandwm yn cael ei ddatblygu hefyd yn amlinellu ac yn ailadrodd yr angen i sicrhau y caiff gwiriadau o dymereddau eu cofnodi'n gyson. Bydd hwn yn cael ei archwilio'n fisol drwy system IRIS a'i fonitro yn yr adroddiadau misol o ddiogelwch cleifion a gweithgareddau ansawdd.	Rheolwr Clinigol y Safle	31.08.2023

Ni chafodd yr adran ar statws cyfreithiol cleifion o'r siart MAR ei chwblhau'n gyson. Yn ogystal, roedd llofnodion ar goll ar nifer fach ohonynt.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n llawn.	Bydd cyfarwyddiadau ac arweiniad clir yn cael eu darparu i staff nyrsio a meddygol mewn perthynas â chwblhau Siartiau MAR yn briodol. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n fisol drwy Gyfarfodydd Gofal a Thriniaeth.	Pennaeth Nyrsio	31.08.2023
Dim ond mewnbwn cyfyngedig a gafwyd gan y fferyllfa a dim ond archwiliadau cyfyngedig a oedd yn cael eu cynnal i hwyluso'r broses o reoli, rhagnodi a storio meddyginiaeth yn yr ysbyty.	Byddai cymorth a mewnbwn amlach gan y fferyllfa o fudd i'r ysbyty.	Bydd yr arweinydd gweithredol clinigol ar gyfer Tîm Llewelyn yn ymgymryd ag adolygiad o'r cymorth fferyllol sydd ar gael. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Arweinyddiaeth Weithredol a'r Uwch Dîm Arwain.	Arweinydd Clinigol Gweithredol	30.09.2023
Gwnaethom nodi nad oedd y bag argyfwng wedi cael ei gau ar ôl cynnal y gwiriadau.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bag argyfwng yn cael ei gau ar ôl i'r gwiriadau perthnasol gael eu cynnal.	Bydd memorandwm yn cael ei ddosbarthu i Reolwyr Tîm a'r holl staff nyrsio yn rhoi	Pennaeth Nyrsio	31.08.2023

		arweiniad ar gau'r bag argyfwng yn y ffordd arferol. Caiff y mater hwn ei godi fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod y Tîm Lleol. Caiff hwn ei fonitro drwy archwiliadau misol rheolwr y tîm ac mewn cyfarfodydd tîm misol.		
Gwnaethom adolygu data atal yn gorfforol a nodwyd nad oedd rhai ffurflenni wedi'u cwblhau'n llawn ac roedd bylchau ar ddata sefyllfa a rhai amseroedd ar goll.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ffurflenni atal yn gorfforol eu cwblhau'n llawn.	Bydd arweiniad yn cael ei ddarparu a memorandum yn cael ei ddosbarthu i Reolwyr Tîm a staff Nyrsio mewn perthynas â gofynion y ddogfennaeth atal yn gorfforol. Bydd gofynion hyfforddiant yn cael eu hadolygu. Dylai'r pennaeth nyrsio gysylltu â'r adran hyfforddiant i ystyried datblygu gweminarau mewn meysydd lle bydd staff yn	Pennaeth Nyrsio	

		elwa ar hyfforddiant ychwanegol. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy archwiliadau misol y rheolwyr tîm.		
Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent yn fodlon ar y dewisiadau bwydlen a oedd ar gael yn Nhŷ Llewelyn. Dywedodd rhai cleifion wrthym fod meintiau'r dognau'n fach, nad oedd y bwyd yn boeth yn aml a bod diffyg amrywiaeth yn y fwydlen.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu adborth y cleifion a gwella'r dewisiadau bwydlen a'r ffordd y caiff bwyd ei baratoi yn Nhŷ Llewelyn i sicrhau bod y dewisiadau ar y fwydlen yn bodloni gofynion maethol y cleifion.	Bydd adolygiad o ddewisiadau bwydlen a gofynion maethol cleifion yn Nhŷ Llewelyn yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Adran Cyfleustodau, yr Adran Arlwyo a'n cleifion. Bydd yr argymhellion ar gyfer yr adolygiad yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod Uwch Dîm Arwain Tŷ Llewelyn a'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gwasanaeth Isadrannol i sicrhau y caiff camau gweithredu eu cytuno arnynt a'u rhoi ar waith. Gwnaeth Rheolwyr Wardiau Tŷ Llewelyn gyfarfod â'r rheolwyr arlwyo ar 08/08/23. Trafodwyd y Cyfarpar Coginio ac Oeri yn ystod y cyfarfod,	Arweinydd Clinigol Gweithredol Rheolwyr y Wardiau	31.01.2024 30.09.2023

	gan gynnwys yr opsiwn o ddewisiadau bwydlen gwell.		30.08.2023
	Mae Bwyd a Maeth yn eitem reolaidd ar yr agenda Together for Recovery (T4R)	Rheolwyr y Wardiau	31.08.2023
	Mae'r Tîm Therapi Galwedigaethol yn parhau i gynnig sesiynau Bwyta'n Iach i'r holl gleifion ac yn cysylltu â Gwasanaethau'r Deietegwyr i gael cyngor a chymorth.	Tîm Therapi Galwedigaethol	31.08.2023
	Ar y cyd â'r Adran Arlwyo a Rheolwyr y Wardiau, bydd bwyd ychwanegol yn cael ei gynnig i'r holl gleifion drwy'r daith siopa wythnosol i Tesco, er mwyn hyrwyddo dewisiadau iach.	Rheolwyr y Wardiau	31.12.2023
	Dylid ystyried Cyfarpar Coginio ac Oeri ac archwilio dewisiadau prynu a fydd yn cael eu rhannu drwy gynllun gwella gyda'r Tîm Arwain a Rheoli Gweithredol.	Arweinydd Strategol/Gweithredol y Gwasanaethau wedi'u Comisiynu'n Arbennig	

		Bydd y cynllun gwella ar gyfer y gegin therapi galwedigaethol yn cael ei ddatblygu yn unol â Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adran Ystadau	Arweinydd Strategol/Gweithredol y Gwasanaethau wedi'u Comisiynu'n Arbennig	31.01.2024
Mae gwybodaeth anghywir yn y cynlluniau gofal a thriniaeth cyfredol ar gyfer dau glaf. Yn ogystal, nid oedd lefelau arsylwi wedi'u diweddarau yn y cynllun gofal ers y cyfarfod adolygu gofal a thriniaeth diwethaf. Yn ogystal, nid oeddem yn sicr a oedd yr archwiliadau cadw cofnodion cyfredol a oedd yn	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried meysydd archwiliadau cadw cofnodion ar eu system archwilio a'u hadolygu i gadarnhau pa mor berthnasol yw'r archwiliadau o ran rhoi sicrwydd ynghylch y safonau cadw cofnodion a'r disgwyliadau mewn lleoliadau iechyd meddwl.	Bydd Rheolwr Clinigol y Safle'n cynnal archwiliadau cadw cofnodion misol o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth i sicrhau y caiff safonau uchel a chofnodion cywir eu cynnal. Bydd y safonau archwilio'n gyson â gofynion Mesurau'r Ddeddf Iechyd Meddwl (2012). Yn ogystal, bydd archwiliadau blynyddol yn	Rheolwr Clinigol y Safle	30.09.2023

archwiliadau bwrdd iechyd cyffredinol yn briodol ar gyfer y lleoliad iechyd meddwl.		cael eu cynnal gan y Tîm Mesurau Iechyd Meddwl ar y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. Bydd yr uchod yn cael ei fonitro a'i gofnodi yn yr adroddiadau misol o ddiogelwch cleifion a gweithgareddau ansawdd.		
Nid oedd y polisiau canlynol yn gyfredol: • Iechyd a diogelwch y gweithle - dyddiad adolygu Gorffennaf 2021 • Arferion Recriwtio a Dethol - dyddiad adolygu Mehefin 2019 • Polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol - dyddiad adolygu Mehefin 2023	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisiau eu hadolygu a'u diweddaru.	Byddwn yn cydweithredu â'r Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau dilyniant amserol y polisiau. Mae'r diweddariad canlynol gan y Gwasanaethau Corfforaethol yn dangos bod disgwyl i'r dogfennau gael eu cwblhau a'u cymeradwyo maes o law Diweddariadau: a) Iechyd a Diogelwch y Gweithle - dyddiad adolygu Gorffennaf 2021 - cwblhawyd ym mis Rhagfyr 2022,		

- Protocol tawelyddu cyflym - dyddiad adolygu mis Mawrth 2022.

- dyddiad adolygu nesaf ym mis Rhagfyr 2023.
- b) Arferion Recriwtio a Dethol - dyddiad adolygu Mehefin 2019 - Mae Polisi WP1 ar gyfer Arferion Recriwtio a Dethol Diogel yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ar hyn o bryd. Bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal a fydd yn cael ei anfon i bob rhan o'r gwasanaeth ymgynghori arno.
- c) Bydd WP8 yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Medi 2023, yna i'r grŵp polisi ei gymeradwyo.
- d) Mae MM54 Protocol Tawelyddu Cyflym, wedi'i adolygu a'i

		gymeradwyo gan yr Is-adran, ac mae'n aros am gymeradwyaeth PQSG.		
Gwelsom fod nifer o swyddi gwag yn yr ysbyty yr oedd y bwrdd iechyd yn ceisio eu llenwi.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff swyddi gwag eu llenwi ac y caiff mentrau eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i weithio yn yr ysbyty.	Ymgysylltu â gweithgor Recriwtio a Chadw Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'r Isadran i ddatblygu'r argymhelliad yng Nghynllun Recriwtio a Chadw Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Enwebu rheolwyr recriwtio i'w cynnwys ar restr flynyddol y panel llunio rhestr fer a chyfweld sy'n gyson â phroses y gronfa ddoniau. Adolygu adroddiad Swyddi Gwag a Recriwtio misol yr Is-adran er mwyn edrych ar unrhyw themâu i helpu'r gwaith recriwtio, sy'n cynnwys y cymysgedd sgiliau, gweithio hyblyg, cynllunio	Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau Pennaeth Nyrso Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau	

		olyniaeth a datblygu llwybr gyrfa i helpu wrth recriwtio. Bydd prosesau Symleiddio Cynnydd i nyrsys dan hyfforddiant er mwyn recriwtio nyrsys B5 ar diwtoriaeth yn dechrau ym mis Medi 2023. Adolygu camau gweithredu a helpu i ddatblygu Cynllun Gweithlu Nyrsio Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Adroddiadau o Berfformiad ardaloedd lleol i grynhoi gweithgareddau recriwtio, gan dynnu sylw at unrhyw rwystrau wrth lenwi unrhyw swyddi gwag. Bydd hyn yn cynnwys bwydo gwybodaeth i'r system olrhain swyddi gwag lleol.		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Maria Atkin

Swydd: Pennaeth Nyrsio, Gwasanaethau wedi'u Comisiynu'n Arbennig

Dyddiad: 4 Awst 2023